

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	8 Gorffennaf 2021
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Craffu 2020-21
Aelod:	Y Cyngorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.
2. Dyma'r flwyddyn gyntaf llawn o weithredu ein trefniadau craffu presennol yn dilyn yr adolygiad craffu. Yn anrnod oherwydd pandemig Covid-19, bu rhaid addasu gyda gweithgareddau craffu yn cael eu cynnal yn rhithiol.
3. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2020-21, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
 - Fforwm Craffu
 - Eitemau Craffu
 - Galw i Mewn
 - Ymchwiliadau Craffu
 - Grŵp Tasg Parcio
 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Sesiynau Aelodau Cabinet
 - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2020/21
4. Gyda phwyslais cynyddol yn cael ei roi ar asesu effaith gwaith craffu, canolbwyntiwyd ar yr eitemau craffu lle ychwanegwyd gwerth drwy'r gwaith craffu.
5. Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 3 Rhagfyr 2020, mabwysiadodd y Cyngor gynnig a gyflwynwyd gan y Cyngorydd Paul Rowlinson yng nghyswllt rheolaeth arddangosfeydd tân gwyllt. Cymal o'r rhybudd a fabwysiadwyd oedd gofyn i'r

Pwyllgor Craffu Cymunedau roi sylw o fewn ei raglen waith i adolygu pa gamau all y Cyngor gymeryd i hyrwyddo neu annog:

- Fod pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus o fewn ffiniau'r sir yn cael ei hysbysebu ymlaen llaw, o fewn ei gyffiniau gan roi cyfle i bobl gymryd rhagofalon dros eu hanifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed.
- Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl sy'n agored i niwed – gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau.
- Cyflenwyr lleol tanau gwyllt i werthu tân gwyllt llai swnlyd ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.
- Pobl i gyfyngu defnyddio tân gwyllt i gyfnod agos at ddyddiadau arbennig.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r mater yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 22 Ebrill 2021, mae'r wybodaeth berthnasol i'w weld ar dudalennau 9 i 10 o'r adroddiad blynyddol.

6. Mae rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad blynyddol.
7. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2020-21, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2020-21

Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL:

Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn tanlinellu y gwaith eang sydd yn cael ei gyflawni gan y pwyllgorau craffu.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwy'n gwerthfawrogi'r mewnbwn craffu deallus gan aelodau cydwybodol Cyngor Gwynedd, yn arbennig yr agweddau blaen-graffu adeiladol fel gweithgaredd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gyda ffocws ar risg yng nghylch Cyllideb 2021/22. Fel arall, nodaf cyflwynir yr adroddiad cryno yma er gwybodaeth, felly does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.